# Casglu a dilysu gwybodaeth am gredyd i gychwyn casgliadau dyledion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chanfod y gofynion ar gyfer casglu dyledion. Yn ogystal â sicrhau gwybodaeth ddigonol i'ch galluogi i gychwyn ar drefniadau casglu gyda'r dyledwr, rhaid i chi ganfod a dilysu'r swm sy'n ddyledus, a chadarnhau hunaniaeth y dyledwr a'r manylion cyswllt. Bydd angen i chi ystyried ffactorau a allai effeithio ar weithdrefnau a rheoliadau casglu dyledion. Bydd angen i chi ddangos cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ag uniondeb bob amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer casglu dyledion, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Gwirio bod gennych chi ddigon o wybodaeth i gadarnhau hunaniaeth a manylion cyswllt dyledwyr neu eu cynrychiolwyr enwebedig
3. Casglu unrhyw fanylion adnabod a chyswllt sydd ar goll yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Cymryd camau i gael hyd i wybodaeth ariannol allweddol sydd ar goll, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Gwirio dilysrwydd a chywirdeb gwybodaeth ariannol a dderbyniwyd gan yr holl drydydd partïon perthnasol yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Cadarnhau bod gweithdrefnau casglu dyledion yn briodol ar gyfer y math o ddyled, p'un a ydyw'n fasnachol neu'n anfasnachol
7. Canfod a oes sicrwydd ar gyfer dyledion a chyflawni gweithdrefnau casglu dyledion yn unol â hynny
8. Dadansoddi gwybodaeth ariannol ac ynghylch credyd i gadarnhau bod angen i weithdrefnau casglu dyledion gychwyn
9. Cadw cofnodion cywir ac wedi'u diweddaru, yn unol â gofynion eich sefydliad
10. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol
11. Nodi risgiau posibl, gan gynnwys unrhyw weithgaredd twyllodrus yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Gweithdrefnau busnes eich sefydliad ar gyfer casglu dyledion, gan gynnwys y ffïoedd a'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu dyledion
2. Y mathau o wybodaeth ariannol ac anariannol y bydd arnoch eu hangen ynghylch dyledwyr i hwyluso trefniadau casglu
3. Sut mae gwirio dilysrwydd a chywirdeb gwybodaeth ariannol a dderbyniwyd, a sut mae cael hyd i wybodaeth sydd ar goll
4. Gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt dyledwyr na ellir dod i gysylltiad â nhw
5. Rheolau perthnasol ynghylch ansolfedd, gan gynnwys Trefniadau Gwirfoddol Unigol (IVAs) a methdaliad
6. Rheolau perthnasol ynghylch Caniatáu Profiant
7. Y gwahanol endidau busnes cyfreithiol, a'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar eu hatebolrwydd
8. Y mathau gwahanol o sicrwydd y gellir eu dal dros ddyledion a gweithdrefnau eich sefydliad ynghylch gwireddu sicrwydd rheolau perthnasol ynghylch cynrychiolaeth yn wyneb analluedd corfforol a meddyliol
9. Sut mae dadansoddi gwybodaeth berthnasol am faterion ariannol a chredyd
10. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth
11. Ymarfer a gweithdrefnau eich sefydliad yng nghyswllt adnabod, hybu a chymhwyso safonau moesegol
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso deddfau, trwyddedau, rheoliadau a chodau fel y maent yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn ymdrin â gwaith mewn modd trefnus
2. Rydych yn cyfleu gwybodaeth mewn modd clir
3. Rydych yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth ddelio gydag eraill

FSPDC01

Casglu a dilysu gwybodaeth am gredyd i gychwyn casgliadau dyledion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPDC01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Casgliadau Dyledion |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-ddyledion; credyd; ad-dalu; peidio â gwneud ad-daliadau; heb eu talu; risg; ansolfedd; credydwr; dyledwr; esgaladu. |